Nadolig Llawen!

Roedd y disgyblion yn edrych yn Nadoligaidd iawn yn eu siwmperi ar ddiwrnod cenedlaethol siwmperi Nadolig a chodwyd llwyth o arian tuag at elusen.

Cafwyd cyngerdd Nadolig hyfryd ar ddiwedd y tymor. Roedd safon y perfformiadau'n wych o'r partion llefaru, i'r corau i'r cyflwyniad dramatig. Braf oedd gweld disgyblion o 3-19 yn cymryd rhan.

Roedd sioeau Nadolig yr Ysgol Isaf yn llwyddiant ysgubol gyda pherfformiadau graenus gan yr holl ddisgyblion.
Dyma'r hanes gan ambell i ddisgybl yn yr Ysgol Isaf:

Roedd Siôn Corn wedi gadael anrhegion yn nhai plant a daeth yr anrhegion yn fyw. Doedden nhw ddim yn gwybod gwir ystyr y Nadolig felly roedd angen i'r Angel esbonio iddyn nhw. Fi oedd yr angel!
Ella-Rose Alford

Roedden ni wedi canu llawer o ganeuon o flaen llawer o bobl! Fy hoff gân oedd 'Clychau Santa Clos.'
Hanna Davies

Roedd pawb wedi esbonio gwir ystyr y Nadolig achos doedd y teganau ddim yn gwybod. Roedd yr angel wedi adrodd y stori ac roedd Mair a Joseff, y bugeiliaid a'r tri gŵr doeth yna!
Alfred Jones

Roeddwn i'n teimlo'n gyffrous a thipyn bach yn nerfus hefyd achos roedd mam a dad a llawer o bobl yn gwylio! Roeddwn i'n gyffrous achos roedd mam a dad yna ond yn nerfus i anghofio fy ngeiriau; ond doeddwn i heb! **Gwion Widgery**

Mwynheuodd ddisgyblion Blwyddyn 2 wneud gweithgareddau'r Nadolig yng Nghapel Salem.

Bu disgyblion y côr hefyd yn diddanu yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Cafodd aelodau'r Clwb Siarad a Siocled gyfle i fynd ar daith i Ŵyl y Gaeaf fel gwobr ddiwedd tymor. Roedd Winter Wonderland yn ardderchog! Roedd y sglefrio iâ yn anodd yn gyntaf, wedyn fe wnes i ddod i arfer. Hefyd roedd yr olwyn fawr yn hwyl. Roedd y bwyd yn Winter Wonderland yn ansbaradigaethus! Roedd yna lawer o bethau i wneud yn Winter Wonderland, fel y reid sglefrio iâ oedd yn troelli llawer! Cawsom ddiwrnod arbennig! Gan Laylan Phillips 7P.

Bu disgyblion yr ysgol hefyd yn brysur yn casglu nwyddau tuag at yr elusen 'Crisis at Christmas'. Roedd hi'n hyfryd gallu rhoi cymaint o nwyddau i bobl llai ffodus na ni dros y Nadolig.

Cafodd bawb ginio Nadolig blasus iawn yn yr ysgol a diolch i staff y ffreutur am y gwaith caled.

Diolch i ddisgyblion yr Ysgol Ganol am weithio'n galed ar eu stondinau ar gyfer y Ffair Nadolig. Casglwyd dros £500 o arian tuag at elusennau'r ysgol!

Gofodwr yng Ngarth Olwg

Ddydd Llun, yr ail o Ragfyr cafwyd profiad arbennig yng Ngarth Olwg pan ddaeth y gofodwr Steve Swanson o NASA i ymweld â disgyblion y pedair ysgol a'r clwstwr. Yn ystod y dydd, sgwrsiodd Steve Swanson gyda'r Ysgol Uchaf, Ganol a Hŷn yn eu tro a chafwyd cinio ac adloniant yng nghwmni'r Ysgol Isaf. Roedd brwdfrydedd y disgyblion wrth iddynt wrando ar y gofodwr yn nodwedd hyfryd trwy gydol y dydd ynghyd â'r straeon difyr a'r themau pwysig a godwyd yn ei sgyrsiau.

Yn y sgwrs gyda'r Ysgol Uchaf, trafododd Steven ei fywyd cynnar a'i addysg. Yma roedd ganddo neges ysbrydoledig i'r disgyblion am bwysigrwydd gwneud penderfyniadau gofalus wrth ddewis eich llwybr trwy'r ysgol, i'r brifysgol ac yna i fyd gwaith. Roedd yn angerddol am ba mor bwysig yw hi i ddewis pynciau a gyrfa sydd yn eich diddori ac y gwnewch fwynhau. Yn sioc i lawer disgybl, cyfaddefodd ei fod o wedi cael ambell fethiant yn ei fywyd addysg gynnar. Ychwanegodd fod y ffaith ei fod wedi dyfalbarhau a pheidio rhoi'r ffidl yn y to wrth wynebu siom, sialens a her wedi creu cryn argraff ar ei gyflogwyr yn NASA a bod hynny yn rhan fawr o'i lwyddiannau aruthrol fel gofodwr yn y pen draw.

Yn y prynhawn, fe ymunodd criw o ddisgyblion o Ysgol Evan James gyda disgyblion yr Ysgol Ganol er mwyn gwrando ar Steven yn trafod ei hyfforddiant fel gofodwr, sut brofiad yw hi i hedfan ar y wennol ofod ac ar y roced Rwsiaidd Soyuz, a hefyd sut mae bywyd dydd i ddydd ar fwrdd yr Orsaf Ofod Rhyngwladol (ISS). Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn gweld sut mae gofodwyr yn gweithio ac yn chwarae mewn awyrgylch di-ddisgyrchiant.
Wrth gael cinio gyda'r Ysgol Isaf, cafwyd adloniant gan yr ensemble lleisiol. Roedd safon y grŵp wedi creu cryn argraff ar Steven ac roedd yn ganmoladwy iawn o'u perfformiad. Roedd hefyd wedi mwynhau'r cwestiynau gonest a chwilfrydig a ofynnwyd gan rai o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol gan gynnwys "Has anybody ever been left out there?"

Gyda'r hwyr, cafodd disgyblion yr Ysgol Hŷn - ynghyd â rhai o'u rhieni - a staff Garth Olwg y cyfle i wrando. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad unigryw o allu holi cwestiynau lu i ofodwr oedd wedi cael tair siwrnai i'r gofod. Gadawodd Steven Swanson yr ysgol gan nodi faint oedd wedi mwynhau'r diwrnod a chan ganmol y disgyblion i'r eithaf. A phwy a ŵyr, yn dilyn profiad mor wefreiddiol, na fydd cyn-ddisgybl Garth Olwg rhyw ddydd yn anelu tua'r sêr!

Dilynwch ni ar Twitter:
@garth_olwg | @TE_Prifathro | @GarthOlwg_Canol | @GarthOlwg_Hyn | @GarthOlwg_Isaf | @ADYGarthOlwg | @AddGorffGO | @mathgarth | @AdranHanesGO | @SaesnegGO @OlwgPontio @adranYGymraegGO | @DaearGO | @DramaOlwg | @CelfyddydauGO | @IRhGarth |@GwyddGarth | @OlwgPontio

Rhaglen Allgyrsiol Auschwitz

Roedd eleni yn nodi 80 mlynedd ers dechrau'r Ail Ryfel Byd yng Ngwlad Pwyl. Er mwyn nodi'r achlysur mae Ysgol Garth Olwg, mewn partneriaeth gyda Phrosiect Addysgol yr Holocost, yn anfon 2 ddisgybl o Flwyddyn 12, Ewan Edwards a Lewis Williams, i gynrychioli'r ysgol ar raglen allgyrsiol i Auschwitz Birkenau. Nod y rhaglen yw datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r Holocost a chodi ymwybyddiaeth ohono trwy ddarparu profiadau uniongyrchol iddynt gan gynnwys clywed gan oroeswr yr Holocost. Mae'r ymweliad yn digwydd ym mis Chwefror ac mae'r ddau ddisgybl yn gyffrous am y cyfle i gefnogi eu hastudiaethau Hanes Safon Uwch. Llongyfarchiadau fechgyn!

Siarad Cyhoeddus y Rotari

Llongyfarchiadau i dîm siarad cyhoeddus yr ysgol sef Huw Griffiths, Efan Fairclough a Gruff Roberts o Flwyddyn 12 a lwyddodd i gipio'r 2il wobr yn rownd derfynol y Rotari! Cafodd Gruff 2il fel gwrthwynebydd a daeth Efan yn 3ydd fel Cadeirydd. Nododd y beirniad ei fod yn hyfryd gweld tîm o fechgyn. Da iawn chi!

Hwyl yn yr Adran Fioleg

Croesawon ddisgyblion Blwyddyn 12 a 13 sy'n astudio Bioleg a Gwyddorau Meddygol o ysgolion yr ardal i Garth Olwg ar yr 22ain o Dachwedd i fynychu Cynhadledd Geneteg. Braf oedd gweld holl ddisgyblion Rhydywaun, Plasmawr, Llangynwyd, Bro Edern a Chwm Rhondda gyda'i gilydd yn gwrando ar ddwy ddarlith ddiddorol iawn. Diolch i Dr Alwena Morgan a Dr Zoe Hudson am eu hamser.

Aeth Blwyddyn 13 Bioleg i labordai Techniquest ar y 14eg o Dachwedd er mwyn echdynnu eu DNA i wirio os oedd eu ffenoteip yn cyd-fynd gyda'u genoteip. Roedd yn gyfle gwych i wella eu sgiliau ymarferol ac wrth gwrs amser i chwarae yng ngweddill yr amgueddfa.

Braf oedd teithio i Lundain gyda chriw o ddisgyblion yr Ysgol Hŷn i ymweld ag arddangosfa fyd enwog BodyWorlds. Roedd yn gyfle arbennig i weld yn union sut mae'r corff a'r holl organnau wedi eu strwythuro, llawer gwell nag unrhyw werslyfr neu glip fideo. Roedd pawb wedi syfrdannu a wedi mwynhau mas draw. Hyfryd oedd gweld holl oleuadau Nadolig y brifddinas hefyd. Ffordd wych o orffen y tymor a chael amser i gymdeithasu.

Gig y Mellt

Ddiwedd mis Tachwedd, aeth criw o ddisgyblion yr Ysgol Uchaf i wylio Mellt yn chwarae yn Ysgol Llanhari. Roedd pawb yn gyffrous iawn o gael y cyfle i fynychu gig y band ifanc o Aberystwyth, a enillodd wobr Albwm Cymraeg y Flwyddyn yn 2018. Agorodd Tom Parry, disgybl o Ysgol Llanhari, y gig gyda pherfformiad hyfryd o'i ganeuon gwreiddiol. Yna, cafwyd perfformiad anhygoel gan Glyn, Ellis a Jacob, ac roedd pawb wrth eu boddau'n canu a dawnsio i ganeuon fel 'Rebel' a 'Planhigion Gwyllt'! Diolch yn fawr i Ysgol Llanhari am y croeso cynnes, ac i Urdd Morgannwg Ganol am drefnu gig gwych.



Llew Jones ym Mhatagonia

Wedi penwythnosau preswyl i gwrdd â'r criw yng nghanolfannau'r Urdd ledled Cymru, fe ddaeth yr amser i gwrdd unwaith eto ym maes awyr Gatwick. Cyrhaeddom Patagonia ar ôl dau hediad, mewn pryd ar gyfer setlo yn ein neuadd yn y Gaiman o'r enw 'Maes Rhyddid'. Bu'r diwrnod cyfan cyntaf yn y Wladfa'n un llawn dop, cawsom groeso a chwrdd â disgyblion chweched dosbarth Coleg Camwy, ymweld ag Ysgol Gynradd y Gaiman am y tro cyntaf a chanu yn ein cyngerdd cyntaf. Roedd yn amlwg ymysg arwyddion ar y stryd a'r disgyblion iau bod diwylliant y Cymry yn cael dylanwad mawr arnynt.
Treuliom ein trydedd noson cyn mynd nôl i'r Gaiman ym Mhort Madryn er mwyn ymweld â'r gymdeithas Gymreig yno. Perfformiodd y plant lleol ddawns werin a chlocsio wrth i ni fwynhau rhai o seigiau traddodiadol yr Ariannin - empanadas. Cefais sgwrs hir gydag un o'r trigolion lleol, Edwardo a'i hanes ef. Roedd yn ddyn hynod o alluog a ddysgodd y Gymraeg trwy ddarllen a bu'n mwynhau ei hymarfer gydag ymweliadau'r Cymry i'w wlad.

Wrth i ni gwrdd â mwy o ddisgyblion lleol, aethom am y dydd i weld pengwiniaid gydag Ysgol yr Hendre. Cawsom ein swyno'n llwyr gan fywyd gwyllt y wlad. Yn ystod diwrnod cyffredin arall yn Ysgol y Gaiman, fe gymerais ran yn y dysgu a chynnal gweithgareddau chwaraeon. Roedd yr athrawon yn ein canmol gan fod y profiadau yn rhai gwerthfawr i'r plant wrth iddynt allu siarad y Gymraeg. Y noson honno oedd un o uchafbwyntiau'r daith i mi, yng nghlwb rygbi'r Ddraig Goch. Ar ôl prynu un o'u crysau a siarad â rhai o'u chwaraewyr, cawsom gêm 7 bob ochr yn eu herbyn cyn dal bws digon moethus dros nos i'r Andes.

Bu'r tywydd yn Nhrevelin, yr Andes yn newid anferthol o gymharu â haul crasboeth y Gaiman oherwydd yr hinsawdd. Wedi bore gyda'r ysgol uwchradd leol, cawsom gêm bêl-droed yng nghysgod gwynder y mynyddoedd o'n hamgylch, cyn cyngerdd mawr yn y dref. Trannoeth, fe gymysgom a chynnal sgyrsiau gyda Chymdeithas Gymraeg Esquel cyn cynnal cyngerdd arall (lwcus i ni gael ymarferion cyn mynd!) Synnais fod gan y trigolion gymaint o gysylltiadau teuluol a ffrindiau gyda Chymry o hyd. Ar ôl bore yn y cabanau pren yn Esquel, aethom ar daith i ardd llawn tiwlipau, does ryfedd fod yr olygfa hudol yn gymaint o atyniad i dwristiaid. Roedd cyfle i gymryd nifer o luniau yma cyn ein taith i'r Fferm Green. Uchafbwynt arall i'r criw oedd gloddesta ar asado - y barbeciw traddodiadol sef darn o gig anferth wedi'i dorri uwchben y tân. Teithiom i Fuenos Aires y diwrnod canlynol ar gyfer ein dwy noson olaf.

Roedd y noson gyntaf yno yn un foethus iawn wrth wylio sioe tango a chael blas ar ddiwylliant yr Ariannin. Cynhwysodd ein diwrnod olaf o deithiau i leoliadau nodedig y ddinas gyda thywysydd. Cefais sioc â phrysurdeb y ddinas wedi dyddiau mewn pentrefi tawel. Bu llwyth o brotestiadau yn ogystal oherwydd yr etholiad oedd ychydig o ddiwrnod ynghynt. Oriau'n ddiweddarach, roedd yn amser teithio nôl i Gatwick ar yr hediad 13 awr. Rhaid dweud mai profiad anhygoel oedd fy ymweliad i Batagonia i weld diwylliant Cymry allan yno ac i weld rhan mor bert o Dde America. Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb a roddodd gymorth i mi i godi'r arian ar gyfer cost y daith.

Dyddiadau Diwrnodau HMS
Dydd Llun 24ain Chwefror 2020
Dydd Gwener 26ain Mehefin 2020
Dydd Llun 20fed Gorffennaf 2020

Dyddiadau Hanner Tymor	Dechrau	Diwedd
1 (Hydref 2019)	4/09/2019	25/10/2019
2 (Hydref 2019)	4/11/2019	20/12/2019
3 (Gwanwyn 2020)	**6/01/2020**	**14/02/2020**
4 (Gwanwyn 2020)	24/02/2020	03/04/2020
5 (Haf 2020)	20/04/2020	22/05/2020
6 (Haf 2020)	01/06/2020	17/07/2020

Pythefnos Dyfodol Llwyddiannus – Y Byd Bendigedig

Er mwyn paratoi ar gyfer Cwricwlwm newydd Donaldson, cawsom bythefnos Dyfodol Llwyddiannus ym mis Tachwedd. Ym Mathemateg bu Blynyddoedd 5 a 6 yn astudio cymarebau drwy edrych ar gynhwysion bwydydd o wledydd gwahanol a dadansoddi data ar hinsawdd a'r fforestydd glaw gwahanol. Bu blynyddoedd 7 ac 8 yn dysgu am barthau amser a threfnu teithiau gan ddefnyddio amserlenni. Cyflawnwyd gwaith o safon uchel a mwynheuodd ddisgyblion ddysgu am wledydd a diwylliannau eraill yn eu gwersi Rhifedd. Yn y gyfadran Ieithoedd, dechreuom y bythefnos drwy edrych ar y cerddi Glas a Let's Go To Barry Island. Llwyddom i gymharu'r ddwy gerdd yn Gymraeg a Saesneg gan edrych ar elfennau sy'n gwneud diwrnod delfrydol. Aeth yr adran Gymraeg ymlaen wedyn i edrych ar lenyddiaeth a chelf a cheisio efelychu steil awduron a dylunwyr. Aeth yr adran Saesneg ymlaen i weithio ar ysgrifennu teithio. Roedd yr adran Ieithoedd Rhyngwladol wedi edrych ar anifeiliaid ac ysgol ddelfrydol. Roedd gweithio'n drawsieithol wedi cyfoethogi sgiliau iaith y disgyblion. Trawsnewidiwyd ystafelloedd y Gyfadran Celfyddydau Mynegiannol yn ystod y bythefnos Dyfodol Llwyddiannus ac aethom ar daith i Gatalunya dan arweiniad cân gan grŵp Gwilym. Bu'r disgyblion yn canu, chwarae offerynnau a dawnsio i'r gân, wrth ymchwilio mewn i hanes gwlad Catalunya. Defnyddiwyd gwaith yr artist a phensaer Antonio Gaudi fel yr ysbrydoliaeth i greu gwaith mosaic a gwelwyd gwaith hynod liwgar a chreadigol. Roedd y gyfadran Wyddoleg wedi cydweithio ar y thema o esblygu: Yng ngwyddoniaeth, sut esblygodd y ddaear a chysawd yr haul, yr atmosffer ac yn olaf bywyd ar y ddaear tra bu Technoleg yn edrych ar sut mae dyluniadau ffonau symudol wedi esblygu dros amser. Cafodd yr adran Dechnoleg Wybodaeth hwyl yn edrych ar sut mae gemau fideo wedi esblygu dros y blynyddoedd. Roedd y disgyblion wedi mwynhau ac wedi cydweithio'n llwyddianus. Bu'r gyfadran Iechyd a Lles ar daith o amgylch y byd gan wneud chwaraeon o wahanol wledydd yn y gwersi Addysg Gorfforol fel Aussie Rules a dawnsfeydd Bollywood. Bwyd stryd oedd thema'r gwersi maeth a buont yn coginio bwydydd blasus o Fecsico!

Aeth Blwyddyn 7 fel rhan o Ddyniaethau ar ymweliad i amgueddfa awyr agored er mwyn datblygu dealltwriaeth o newidiadau yn yr ardal leol ac effaith y Chwyldro Diwydiannol. Fel rhan o'r prosiect, bu ffocws mawr ar waith grŵp a datblygu sgiliau aml gyfrwng wrth iddynt greu flogs a chymryd lluniau i'w cynorthwyo yn eu cyflwyniadau ar ddiwedd y pythefnos. Cafodd y disgyblion gyfle i ymweld â thai Rhyd y Car, asesu'r gwahaniaeth rhwng yr Eglwys â Chapel, a newidiadau ym mhatrymau siopa. Bu rhai yn ffodus iawn i weld arddangosfa fyw o'r gwaith traddodiadol gyda'r gwaith haearn. Roedd hyn yn sail greadigol i ddisgyblion Blwyddyn 7 i ddatblygu eu prosiectau grŵp i ddangos datblygiad ein byd bendigedig.

Roedd disgyblion Blwyddyn 7 wedi cael modd i fyw yn gwylio sioe Binit ac yn dysgu am bwysigrwydd gwarchod ein hamgylchedd. Roedd y sioe yn wych!

Daeth cwmni'r Urdd i'r ysgol i berfformio sioe i ddisgyblion blynyddoedd 1-4. Roedd y plant wedi mwynhau'n fawr iawn.

Llongyfarchiadau i Anwen Davies, Blwyddyn 12 sydd wedi llwyddo i gyrraedd rownd derfynol Gwobrau Addysg y DU am ei chanlyniadau TGAU a'i gwaith allgyrsiol.

Cystadleuaeth 'Young Writers'

Llongyfarchiadau i bob un oedd wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth 'Young Writers' yn ddiweddar. Y thema tymor hwn oedd 'through their eyes', ble roedd rhaid i ddisgyblion greu cerdd o safbwynt rhywun neu rywbeth arall. Mwynheuodd y disgyblion greadigrwydd y dasg a thrafodon nhw nifer o bynciau gwahanol yn amrywio o Boris Johnson i binafal ar bitsa. Cafodd gwaith caled y disgyblion eu gwobrwyo ac mae 49 o gerddi'r disgyblion yn cael eu cyhoeddi yn yr antholeg. Mae hyn yn llwyddiant anhygoel sydd yn gwobrwyo eu gwaith caled a brwdfrydedd. Llongyfarchiadau i bawb!

Aeth disgyblion y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn i berfformio i gynulleidfa hapus iawn yn y Cartref.

Cyhoeddiadau Lemonêd

Sefydlwyd y cwmni Cyhoeddiadau Lemonêd gan griw o ferched Blwyddyn 10 ac 11 er mwyn iddynt gael rhannu eu syniadau ynglŷn ag iechyd meddwl a'r problemau maent wedi goroesi yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Aelodau'r grŵp yw:- Katie Burgess, Zoë Gable, Seren Collier, Arianwen Mahoney ac Ebony Smith. Maent wedi bod wrthi'n gweithio'n ddiwyd i ysgrifennu a dylunio cyfres o lyfrau dwyieithog ar gyfer plant a phobl ifanc yn trafod Iechyd Meddwl ac ymdopi gyda heriau bywyd ysgol. Bwriedir cyhoeddi'r llyfrau ym mis Chwefror. Mewn noson dathlu YRP, [Ynysybwl Regeneration Project], enillodd Seren wobr Arloeswr Ifanc y Flwyddyn, ac enillodd Cyhoeddiadau Lemonêd wobr Menter Ieuenctid y Flwyddyn. Da iawn chi ferched!



CYHOEDDIADAU LEMONÊD PUBLISHING

Taith i Lundain i ddisgyblion Hanes ac Addysg Grefyddol

Yn ystod wythnos olaf y tymor, cafodd ddisgyblion o flynyddoedd 11,12 a 13 sy'n astudio Hanes ac Addysg Grefyddol y cyfle i ymweld â Llundain. Fe wnaeth y disgyblion sy'n astudio Addysg Grefyddol gael diwrnod diddorol iawn. I ddechrau, aethom ni i Abaty San Steffan. Roedd pawb yn meddwl ei fod yn adeliad prydferth iawn a bod gweld yr holl hanes sydd gan y wlad yn hynod o ddiddorol. Ar ôl cinio, aethom i'r deml Fwdhaidd. Roedd hyn yn hynod fanteisiol oherwydd ein bod yn astudio Bwdhaeth ac felly roedd y cyfle i gael sgwrsio gyda Bwdhyddion go iawn yn hynod o fuddiol. Dysgom lawer am draddodiadau Bwdhaidd sydd yn sicr yn mynd i fod o ddefnydd pan fyddwn yn sefyll ein harholiad!

Cafodd y disgyblion sy'n astudio Hanes y cyfle i ymweld ag Ystafelloedd Tanddaearol Churchill a'r Amgueddfa Ryfel Imperial. Roedd Ystafelloedd Tanddaearaol Churchill yn hynod ddiddorol. Roedd yn rhyfedd fod nifer o bobl heb glywed amdanynt gan eu bod wedi chwarae rhan mor allweddol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd Cofeb yr Holocost yn yr Amgueddfa Ryfel Imperial yn brofiad emosiynol, addysgiadol, a bythgofiadwy. Roedd yr ymweliadau i'r amgueddfeydd hyn yn agoriad llygad i bawb a hefyd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ein harholiadau yn yr haf. Cafodd pawb hefyd y cyfle i fwyta yn Covent Garden ac ymweld â Winter Wonderland. Fe wnaeth y profiadau hyn gyfoethogi ein profiad o Lundain a'i gwneud hi'n daith fythgofiadwy. Diolch i'r athrawon am drefnu.

Llwyddiannau Chwaraeon

Llongyfarchiadau i'r canlynol yng ngala nofio rhanbarthol yr Urdd:
Samson Dossett, Blwyddyn 6 – 1af Ras Pili Pala a Chymysg
Aled Evans, Blwyddyn 8 – 1af Broga
Owen Leach, Blwyddyn 11 – 1af Pili Pala
Ras Gyfnewid Rydd Bechgyn Blwyddyn 11 + - 1af
Ras Gyfnewid Amrywiol Bechgyn Blwyddyn 11 + - 1af
Gwen Salmon, Blwyddyn 7 – 2il Broga
Even Leach, Blwyddyn 8 – 2il Broga a Chefn
Ras gyfnewid Rydd Cymysg, Blwyddyn 7 ac 8 – 2il
Ras gyfnewid Rydd Bechgyn, Blwyddyn 7 ac 8 – 2il
Caitlyn Vincent – Blwyddyn 8 -2il Pili Pala
Ras gyfnewid Amrywiol Bechgyn, Blwyddyn 7 ac 8 – 2il
Llyr Robins, Blwyddyn 7 – 3ydd Cefn
Carwyn Salmon, Blwyddyn 11 – 3ydd Rhydd
Aled Evans, Blwyddyn 8 – 3ydd Rhydd
Rhys James, Blwyddyn 5 – 3ydd Dewis Rhydd
Begw Williams, Blwyddyn 6 – 3ydd Broga

Llongyfarchiadau i Paige Ward a Lauren Payne ar gael eu dewis i chwarae i dîm pêl-droed dan 13 Ysgolion Cymru. Da iawn chi ferched, mae'r gwaith caled yn talu'i ffordd!

Llongyfarchiadau i Darcy Cromwell, Blwyddyn 12 a gystadlodd ddiwedd y mis ym Mhencampwriaeth Dawns Brydeinig o dan 21. Daeth Darcy yn 2ail a hithau ond yn 16 oed. Llongyfarchiadau hefyd i Darcy ac Amelia Hughes, Blwyddyn 10 am ddod yn 3ydd mewn cystadlaethau gwahanol yng nghystadlaethau Dawnsio Lladin y Byd! Da iawn chi!

Llongyfarchiadau i Rhys Green am ddod yn 3ydd yng Nghwpan Dreigiau Gwibgartio - Da iawn Rhys!

Llongyfarchiadau i Eurion John, Blwyddyn 8 a enillodd athletwr gorau 2019 gyda Chlwb Athletau Pontyclun. Da iawn ti Eurion a phob hwyl yn 2020.

Llongyfarchiadau i dîm rygbi cyntaf yr ysgol ar gyrraedd rownd derfynol cwpan y gynghrair. Colli bu ei hanes yn y gêm derfynol i Fryn Celynnog ond roedd y tîm wedi chwarae'n wych.